Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
21/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
08/03/2023

# **Deall effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru:** Eithrio Ymadawyr Gofal rhag talu'r Dreth Gyngor

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron

ISBN digidol: 978-1-80535-589-2

Deall effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru: Eithrio Ymadawyr Gofal rhag talu'r Dreth Gyngor

Awduron: Zoe Charlesworth, Policy in Practice, Alex Clegg, Policy in Practice, Adam Knight-Markiegi, M.E.L Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Charlesworth, Z; Clegg, A; Knight-Markiegi, A (2023). Deall effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru. Rhan 2: Eithrio Ymadawyr Gofal rhag talu'r Dreth Gyngor, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 21/2023.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/deall-effaith-ymyriadau-treth-gyngor-yng-nghymru-eithrio-ymadawyr-gofal-rhag-talur-dreth-gyngor

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nerys Owens
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

Cydnabyddiaethau

*Hoffai Policy in Practice ddiolch i'r canlynol:*

Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Grŵp Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru a roddodd adborth hynod werthfawr ar wahanol gamau o'r gwaith ymchwil hwn.

Jack Rowlands, Tylor-Maria Johnson a Janet Harkin o Policy in Practice, am y gwaith dadansoddi data, hysbysu am bolisïau a phrawfddarllen.

Bla Translation (https://bla-translation.co.uk/cy/) am eu gwaith ardderchog o ran cyfieithu'r adroddiad i'r Gymraeg.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 6
2. Cefndir .......... 8
3. Dull .......... 11
4. Methodoleg .......... 12

Gwerthusiad sylfaenol o weithredu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal .......... 12

Dadansoddiad ystadegol o'r effaith .......... 13

Data arolygon a chyfweliadau .......... 14

5. Canfyddiadau: Gweithredu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal .......... 15

Cyflwyniad .......... 15

Gweithredu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal .......... 16

Rhwystrau rhag gweithredu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal .......... 19

Tystiolaeth o hygyrchedd yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal .......... 22

6. Canfyddiadau: Effaith yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal .......... 25

Barn y cyngor am effaith yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal .......... 25

Barn ymadawyr gofal am effaith yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal .......... 26

Barn trydydd partïon ar effaith yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal .......... 27

Tystiolaeth ystadegol o effaith yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal .......... 28

7. Crynodeb o'r Canfyddiadau .......... 35

Gweithredu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal .......... 35

Effaith yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal .......... 36

8. Casgliad ac argymhellion .......... 37
9. Atodiadau .......... 41

Atodiad 1: Methodoleg Gwaith Maes .......... 41

Atodiad 2: Arolwg cynghorau Cymru – cwestiynau ynghylch yr eithriad i ymadawyr gofal ........................................................................................................................42

Atodiad 3: Fframwaith trafodaeth ar gyfer bord gron ymadawyr gofal ..............................43

Atodiad 4: Gwybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal ar wefan Cyngor Sir Ddinbych ..........................................................................................44

**Rhestr Ffigyrau**

Ffigwr 1: Ymateb i gwestiwn arolwg ynghylch ymwybyddiaeth o eithrio ymadawyr gofal rhag talu'r Dreth Gyngor ........ 22

Ffigwr 2: Ffigwr 2: Hygyrchedd eithriad rhag talu'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal (nifer cynghorau Cymru) ........ 29

Ffigwr 3: Nifer yr eithriadau rhag talu'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal, ledled Cymru, 2020 – 2023 ........ 35

Ffigwr 4: Nifer yr eithriadau rhag talu'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal, fesul cynghorau Cymru, 2020 – 2023 ........ 36

Ffigwr 5: Nifer cyfartalog yr eithriadau rhag talu'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal (2020 – 2023) mewn cymhariaeth â phoblogaeth flynyddol gyfartalog ymadawyr gofal (2020 – 2021), fesul cynghorau Cymru ........ 39

Ffigwr 6: Cymhariaeth o eithriadau cyfartalog blynyddol rhag talu'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal (2020 – 2023) yn erbyn y sgôr ar gyfer hygyrchedd y wefan i wybodaeth ynghylch eithriad i ymadawyr gofal ........ 40

**Geirfa**

| Gair allweddol | Diffiniad |
| --- | --- |
| Ymadäwr gofal | Daw'r diffiniad cyfreithiol o ymadäwr gofal o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000, sy'n nodi mai ystyr Ymadäwr Gofal yw rhywun sydd wedi bod yng ngofal yr Awdurdod Lleol am gyfnod o 13 wythnos neu ragor yn ymestyn dros ei ben-blwydd yn 16 mlwydd oed. |
| Treth Gyngor | Treth leol ar eiddo domestig sy'n cael ei gweinyddu a'i chasglu gan awdurdodau lleol ym Mhrydain. Mae'r tâl yn seiliedig ar amcangyfrif o werth yr eiddo a nifer y bobl sy'n byw ynddo. Mae dosbarthiadau o anheddau a phreswylwyr a ddiffinnir wedi'u heithrio rhag y dreth neu'n gymwys am ddisgownt. |
| Disgownt | Disgownt ar y Dreth Gyngor lawn. Mae hwn yn berthnasol i anheddau penodol lle mae rhai, ond nid y cyfan, o breswylwyr yr annedd wedi eu heithrio rhag talu Treth Gyngor. Gall y gostyngiadau fod yn 25% neu 50% yn dibynnu ar gategorïau a nifer y preswylwyr sydd wedi'u heithrio. |
| Eithrio | Eithrio rhag talu Treth Gyngor. Llywodraeth Cymru sy'n pennu categorïau'r anheddau a'r unigolion y rhoddir eithriad iddynt. Mae Nam Meddyliol Difrifol yn un o'r categorïau sydd wedi'u heithrio (dosbarth U). |
| Llety byw â chymorth | Annedd rhent lle mae'r tenant yn derbyn gofal, cymorth neu oruchwyliaeth sy'n gysylltiedig, mewn rhyw ffordd, â'i lety. |
| Cynghorydd Pobl Ifanc | Mae Cynghorwyr Pobl Ifanc yn swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant 14+ oed i gefnogi pobl ifanc mewn gofal, neu'r rheini sy'n ymadael â gofal, i bontio'n llwyddiannus i fywyd oedolyn. |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn uchelgeisiol o ddiwygiadau Treth Gyngor gyda'r amcan o wneud y system Treth Gyngor yn decach ac yn fwy blaengar, gan gynnal cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol ar yr un pryd. Mae'r ymrwymiadau hyn wedi'u nodi yn y Rhaglen Lywodraethu[1] ac yn y Cytundeb Cydweithio[2]. Hefyd ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i ymgynghori ar fesurau, gan gynnwys ailbrisio a diwygio'r sylfaen drethu. Roedd y datganiad yn nodi bod yr "opsiynau sy'n cael eu hystyried y tymor hwn yn cynnwys cynnal proses ailbrisio, adolygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a gwerthuso gostyngiadau, diystyriadau, esemptiadau a phremiymau – gydag opsiynau ar gyfer diwygio mwy sylfaenol yn y tymor hwy[3]. ”

1.2 Dechreuodd Llywodraeth flaenorol Cymru (2016 - 2021) y broses o ddiwygio drwy gyflwyno, yn 2019, ymysg camau eraill, pedwar ymyriad allweddol a oedd yn gweithio o fewn y fframwaith Treth Gyngor cyfredol:

- Dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor
- Cyflwyno Protocol Treth Gyngor Cymru - Arfer dda wrth gasglu treth y cyngor[4]. Mae'n god ymarfer gwirfoddol ar gyfer gorfodi ac ar gyfer cynorthwyo rhai sydd â dyled Treth Gyngor. Mae pob cyngor yng Nghymru wedi cytuno i'w weithredu.
- Safoni'r broses ymgeisio ar gyfer rhai sydd â 'nam meddyliol difrifol'. Fel rhan o hyn, roedd angen i gynghorau fabwysiadu proses ymgeisio gyffredin a safoni gwybodaeth a ddarperir ynghylch yr eithriad.

---

[1] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad (https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/rhaglen-lywodraethu-diweddariad-rhagfyr-2021.pdf), 2022
[2] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad, (https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/programme-for-government-update-december-2021.pdf), 2022
[3] Llywodraeth Cymru, Cynlluniau i ddiwygio'r Dreth Gyngor, (https://llyw.cymru/cynlluniau-i-ddiwygior-dreth-gyngor), 7 Rhagfyr 2021
[4] Llywodraeth Cymru, Protocol Treth Gyngor Cymru - Arfer Dda wrth Gasglu Treth y Cyngor, (https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2221), 2019

- Deddfwriaeth a oedd yn darparu eithriad i ymadawyr gofal rhag talu'r Dreth Gyngor tan eu pen-blwydd yn 25 mlwydd oed, gyda'r nod o'u cynorthwyo gyda'r newid i fod yn oedolyn

1.3 Yn 2022, comisiynwyd Policy in Practice gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith ymchwil gyda dau amcan allweddol:

- Gwerthuso'r ffordd y mae'r pedwar mesur ymyrryd Treth Gyngor a gyflwynwyd yn 2019 yn cael eu gweithredu a'u darparu yn lleol
- Gwerthuso effaith y mesurau hyn ar breswylwyr a chynghorau

1.4 Er hwylustod, darperir y canfyddiadau ar gyfer pob un o'r pedwar ymyriad mewn pedwar adroddiad ar wahân. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad cyflwyno'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal

## 2. Cefndir

2.1 Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2016, sef Breuddwydion Cudd[5], sefydlwyd nodau Comisiynydd Plant Cymru, Sally Holland, i gefnogi ymadawyr gofal yng Nghymru. Cafodd yr adroddiad ei lywio gan gyfarfodydd gydag ymadawyr gofal i ddeall eu huchelgeisiau a'r heriau maent yn eu hwynebu wrth bontio i fywyd annibynnol. Pwysleisiwyd yn yr adroddiad canfyddiadau'r Rhaglen *New Belongings*[6], a ganfu fod y Dreth Gyngor yn fil arbennig o heriol i ymadawyr gofal ei dalu. Roedd yr adroddiad gan Gomisiynydd Plant Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys ystyriaeth o ymadawyr gofal yn ei huchelgeisiau i wneud y Dreth Gyngor yn decach.

2.2 Fis Mawrth 2017, gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i gynghorau Cymru ystyried defnyddio eu pwerau disgresiwn i eithrio ymadawyr gofal rhag talu Treth Gyngor er mwyn cefnogi eu trosglwyddiad i fywyd oedolyn a byw'n annibynnol[7]. Yn ogystal, ymwelodd y Comisiynydd Plant â holl gynghorau Cymru i drafod trefniadau cymorth ar gyfer ymadawyr gofal gyda'r tîm gweithredol ym mhob cyngor yng Nghymru. Cafodd yr egwyddor o eithrio ymadawyr gofal rhag talu'r Dreth Gyngor, a roddwyd ar waith drwy ddefnyddio pwerau disgresiwn yr awdurdod lleol, ei derbyn ar y cyfan ar draws cynghorau Cymru ond roedd lefel ei gweithredu yn anghyson. Er mwyn rhoi cymorth ar sylfaen fwy cyson, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar newid rheoliadol i gyflwyno eithriad Treth Gyngor i bob ymadäwr gofal hyd at bump ar hugain oed[8]. Cafwyd ymateb arbennig o gefnogol i'r ymgynghoriad (91% o blaid) a daeth y ddeddfwriaeth i weithredu'r mesur hwn i rym o 1 Ebrill 2019.

---

[5] Comisiynydd Plant Cymru, Breuddwydion Cudd (https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/02/Breudd-Cudd.pdf), 2017
[6] Adran Addysg, New Belongings Programme Evaluation (https://www.gov.uk/government/publications/new-belongings-programme-evaluation), 2016
[7] Llywodraeth Cymru, Dogfen Ymgynghori; Eithrio’r Rhai sy'n Gadael Gofal Rhag Talu’r Dreth Gyngor (https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-11/MA-P-MD-3821-18%20-%20Consultation%20on%20Council%20Tax%20Exemptions%20for%20Care%20Leavers%20%28Welsh%29.pdf), 2018
[8] Llywodraeth Cymru, Dogfen Ymgynghori; Eithrio’r Rhai sy'n Gadael Gofal Rhag Talu’r Dreth Gyngor (https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-11/MA-P-MD-3821-18%20-%20Consultation%20on%20Council%20Tax%20Exemptions%20for%20Care%20Leavers%20%28Welsh%29.pdf), 2018

2.3 Drwy Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) (Diwygio) (Cymru) 2019,[9] cyflwynwyd dosbarth newydd o eithriad, Dosbarth X, i Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992[10]. Mae hon yn eithrio anheddau yng Nghymru lle mae'r holl breswylwyr naill ai'n ymadawyr gofal dan 25 mlwydd oed neu wedi'u heithrio (megis myfyrwyr neu'r rheini sydd â Nam Meddyliol Sylweddol) rhag talu'r Dreth Gyngor. Diffinnir ymadäwr gofal yn unigolyn a oedd yn 'derbyn gofal' ar ei ben-blwydd yn 16 mlwydd oed ac a oedd yn 'derbyn gofal' am o leiaf 13 wythnos ers iddo droi'n 14 mlwydd oed.

2.4 Gan gyflwyno'r ddeddfwriaeth 2019, dywedodd y Gweinidog Cyllid ar y pryd, Rebecca Evans:

*"Rwyf eisiau sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'n hawdurdodau lleol yn gwneud pob peth o fewn ein gallu i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal a'u cynorthwyo wrth iddynt dyfu'n oedolion a byw'n annibynnol. Mae'r cyhoeddiad heddiw yn gam cadarnhaol arall yn ein hadduned i wneud y dreth gyngor yn decach, a hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad[11]."*

2.5 Roedd cyflwyno dosbarth newydd o eithriadau i'r Dreth Gyngor yn dal i adael rhai ymadawyr gofal dan 25 mlwydd oed yn atebol i dalu'r Dreth Gyngor. Mae hyn yn digwydd pan mae ymadäwr gofal dan 25 mlwydd oed yn byw gydag oedolyn nad ydyw wedi'i eithrio, gan arwain at ddisgownt o 25% yn ei atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor, yn hytrach nag eithriad llawn i'r Dreth Gyngor. Roedd rhai ymadawyr gofal yn wynebu gorfod talu'r Dreth Gyngor a dyledion Treth Gyngor oherwydd atebolrwydd, ar y cyd ac yn unigol, am y tâl.

2.6 Bu i nifer o gynghorau ddewis darparu cymorth disgresiwn i ymadawyr gofal sy'n byw gydag oedolion nad ydynt wedi'u heithrio rhag atebolrwydd ar y cyd ac yn

---

[9] Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) (Diwygio) (Cymru)(https://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/432/made/welsh), 2019
[10] Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt)(https://www.legislation.gov.uk/uksi/1992/558/contents/made), 1992
[11] Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cymru: Pobl ifanc sy'n gadael gofal i gael eu heithrio rhag talu'r dreth gyngor, (https://llyw.cymru/pobl-ifanc-syn-gadael-gofal-i-gael-eu-heithrio-rhag-talur-dreth-gyngor-0), Ebrill 2019

unigol, ond nid oedd y ddarpariaeth hon yn gyson ledled Cymru, ac arweiniodd hynny at amrywiad yn amddiffyniad ymadawyr gofal rhag dyledion Treth Gyngor.

2.7 Yn 2021, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynnig i ymestyn amddiffyniad rhag atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal sy'n byw gydag unigolion nad ydynt wedi'u heithrio[12] i sicrhau bod yr ymarfer yn gyson ac i amddiffyn ymadawyr gofal rhag camau gorfodi'r Dreth Gyngor. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r ymgynghoriad a chyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau’r Dreth Gyngor (Atebolrwydd ar y Cyd ac Unigol Personau sy’n Ymadael â Gofal) (Cymru) 2022, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2022.

2.8 Bwriad Llywodraeth Cymru drwy gyflwyno sail ddeddfwriaethol i eithrio ymadawyr gofal rhag talu'r Dreth Gyngor yw darparu cymorth cyson i ymadawyr gofal sydd dan 25 mlwydd oed ledled Cymru a'u hamddiffyn rhag atebolrwydd y Dreth Gyngor. Wedi dweud hynny, mae angen cyflwyno ffurflenni cais i'r cyngor lleol ar gyfer eithriadau a disgowntiau'r Dreth Gyngor, ac felly mae'n dibynnu ar yr ymadäwr gofal yn cael gafael ar y wybodaeth ofynnol ac yn gwneud cais am yr eithriad.

2.9 Dymuna Llywodraeth Cymru ddeall pa un ai a yw'r ddarpariaeth newydd yn cael ei chymhwyso'n gyson, a deall effaith y ddeddfwriaeth ar ymadawyr gofal.

*Effaith Covid*

2.10 Cyflwynodd bandemig COVID-19 ymyrraeth eang ar fusnes a chynyddu pwysau ar gynghorau gan eu bod yn wynebu'r gofyniad i roi cymorth COVID-19 i breswylwyr. Mae'r ymchwil hwn yn ceisio gwahanu effeithiau'r pandemig rhag effeithiau cyflwyno'r ymyriadau. Mae'r adroddiad yn pwysleisio lleoedd y mae COVID-19 wedi effeithio ar y canlyniadau o bosib.

---

[12] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ar gael gwared ar atebolrwydd unigolion cymwys sy’n gadael gofal am dalu’r dreth gyngor (https://llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-gael-gwared-ar-atebolrwydd-unigolion-cymwys-syn-gadael-gofal-am-dalur-dreth-gyngor), 2021

## 3. Dull

3.1 Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn seiliedig ar ymchwil desg, dadansoddi meintiol a gwaith maes, sy'n cynnwys arolwg o swyddogion cyngor a chyfweliadau gyda sefydliadau trydydd parti.

3.2 Mae'r ymchwil desg yn cyfuno canfyddiadau ymchwil a wnaed eisoes ac yn archwilio gwefannau cynghorau yng Nghymru er mwyn gwerthuso pa mor rhwydd yw ceisio'r eithriad i ymadawyr gofal. Mae hyn yn sail i ba mor gyson yw'r gweithrediad ar draws cynghorau ac yn amlygu arferion da.

3.3 Defnyddir gwaith dadansoddi data ac ystadegau i ddeall:

- Pa un ai a yw nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal a ddyfarnwyd mewn ardal cyngor yn cyd-fynd â'r nifer a ddisgwylir
- Newid yn nifer yr eithriadau rhag talu'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal a ddyfarnwyd ledled Cymru a'r lefel amrywiaeth rhwng rhanbarthau
- Cydberthynas rhwng y canllawiau a ddarparwyd gan gynghorau (defnyddio canllawiau gwefan fel dangosydd) a chymhwyso'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal

3.4 Mae canfyddiadau o arolygon, cyfweliadau a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid ac ymadawyr gofal yn rhoi cyd-destun ychwanegol i'r canfyddiadau.

# 4. Methodoleg

**Gwerthusiad sylfaenol o weithredu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal**

4.1 Adolygwyd gwefan pob un o'r 22 cyngor yng Nghymru i ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

- Pa mor hawdd ydyw i geisio gwybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal?
- A yw'r cyngor yn darparu gwybodaeth mewn iaith eglur ynghylch yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal?
- A oes tystiolaeth o arfer dda wrth geisio gwybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal?

4.2 Gwerthuswyd gwefan pob cyngor yng Nghymru mewn perthynas â pha mor rhwydd oedd ceisio'r wybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal. Rhannwyd yr hygyrchedd i'r categorïau Da, Cymedrol a Gwael. Rhoddwyd sgôr i'r asesiadau hyn (0-3) i'w ddefnyddio yn y dadansoddiad ystadegol.

4.3 Aseswyd gwefannau'r cyngor gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

- Llwybr rhwydd at wybodaeth (e.e. Treth Gyngor > Disgowntiau ac Eithriadau > Ymadawyr Gofal > Gwneud Cais)
- Mynediad rhwydd at y ffurflen gais yn uniongyrchol o'r dudalen sy'n trafod yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal
- Darparu gwybodaeth ynghylch eithriadau Treth Gyngor y tu hwnt i restr ffurfiol o ddosbarthiadau o eithriadau

4.4 Rhoddwyd cyngor yn y categori hygyrchedd cymedrol os yw dwy o'r nodweddion ar gyfer hygyrchedd da wedi'u bodloni. Rhoddwyd cyngor yn y categori hygyrchedd gwael os yw un neu lai o'r nodweddion wedi'u bodloni.

4.5 Adolygwyd y gwefannau fis Mehefin 2022, felly mae'n bwysig nodi y gall unrhyw wybodaeth a ddarparwyd fod wedi'i diwygio neu ei diweddaru erbyn hyn.

**Dadansoddiad ystadegol o'r effaith**

4.6 Mae StatsCymru yn darparu data ynghylch anheddau sy'n derbyn eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal gan awdurdod lleol ar gyfer 2013 - 2023. Mae'r tabl data "Anheddau wedi'u Heithrio rhag y Dreth Gyngor" yn darparu data gan Arolwg Anheddau'r Dreth Gyngor Llywodraeth Cymru ynghylch yr anheddau sy'n gymwys am ddisgowntiau ac eithriadau'r Dreth Gyngor fesul awdurdod lleol. Mae'r tabl data hwn wedi'i hidlo ar gyfer anheddau sy'n derbyn Eithriad X, Ymadawyr Gofal. Nid yw'r cyfuniad data hwn yn adnabod eithriadau rhannol drwy ddisgowntiau'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal a ddyfarnwyd cyn 2022. Felly, nid yw'n adlewyrchu'r nifer cyfan o ymadawyr gofal a gefnogir gan y cyngor.

4.7 Er mwyn deall lefel gymhwyso'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal, a chysondeb cymhwyso'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal ledled cynghorau Cymru, defnyddiwyd mesur o'r boblogaeth a all fod yn gymwys. Nid oes data ar gael ynghylch cyfanswm y boblogaeth sy'n gymwys am eithriad ym mhob ardal cyngor, felly adnabuwyd amcangyfrif o nifer yr aelwydydd a all fod yn gymwys ar gyfer pob cyngor. Mae'r amcangyfrif hwn yn ffigwr y gellir ei ddefnyddio i gynrychioli'r boblogaeth a all fod yn gymwys ond mae'n cynnwys is-set adnabyddadwy o'r boblogaeth honno.

4.8 Daw'r amcangyfrif o gymhwysedd posib am yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal o set data Iechyd a Gofal Cymdeithasol StatsCymru "Penodau sy'n gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (16 oed a throsodd) yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw a rheswm dros orffen[13]". Mae setiau data Gofal Cymdeithasol yn cynnwys cipluniau a dynnwyd ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Ers cyflwyno'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal, dim ond dau set data sydd wedi'u cyhoeddi; Mawrth 2020 a Mawrth 2021. Defnyddir nifer cyfartalog yr ymadawyr gofal dros y ddwy flynedd fel amcangyfrif ar gyfer y boblogaeth a all fod yn gymwys am yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal.

---

[13] StatsCymru > Iechyd a gofal cymdeithasol > Gwasanaethau cymdeithasol > Gwasanaethau plant > Plant sy'n derbyn gofal > Ymadawyr gofal 16 oed a hŷn > Penodau sy'n gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (16 oed a throsodd) yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw a rheswm dros orffen

4.9 I gymharu'r amcangyfrif o'r boblogaeth gymwys gyda'r boblogaeth sy'n derbyn yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal, defnyddiwyd y nifer cyfartalog blynyddol o eithriadau a ddarparwyd gan bob cyngor ar draws y tair blynedd ers cyflwyno'r eithriad. Mae defnyddio nifer cyfartalog ar draws blynyddoedd yn ddangosydd gwell o'r eithriadau gan fod y rhain yn niferoedd isel ar gyfer rhai cynghorau ac felly gallai mân newidiadau ar draws blynyddoedd gyflwyno tuedd i'r canlyniadau.

**Data arolygon a chyfweliadau**

4.10 Dadansoddwyd data meintiol ac ansoddol cynradd a gasglwyd drwy arolygon ar-lein a chyfweliadau fel sail i'r gwerthusiad o'r broses a'r effaith. Gweler amlinelliad o'r fethodoleg ar gyfer y gwaith maes yn Atodiad 1.

4.11 Cynhaliwyd arolwg gyda phob cyngor yng Nghymru i gael gwybod beth oedd eu dealltwriaeth o'r pedwar ymyriad Treth Gyngor. Roedd cwestiynau penodol yn ymdrin â gweithredu'r eithriad i ymadawyr gofal, a'i heffaith. Gwahoddwyd pob cyngor i gymryd rhan a dosbarthwyd yr arolygon yn bennaf i'r Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau. Cafwyd 23 ymateb i'r arolwg gan 14 o gynghorau. Mae cwestiynau'r arolwg i'w cael yn Atodiad 2.

4.12 Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gydag asiantaethau trydydd parti i gasglu barn ynghylch gweithredu ymyriadau Treth Gyngor, a'u heffaith. Mewn perthynas â'r ymyriad i ymadawyr gofal, cyfwelwyd â chynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Mind Cymru a Care Leavers Association. Roedd y cyfweliadau'n para oddeutu awr ac roeddent yn lled-strwythuredig.

4.13 Cynhaliwyd trafodaeth bord gron gyda grŵp o ymadawyr gofal i gasglu eu profiadau o wneud cais am yr eithriad a deall ei heffaith ganfyddedig. Cynhaliwyd y drafodaeth ar alwad fideo, a pharhaodd am awr. Cafodd pob ymadäwr gofal a gymerodd ran daleb gwerth £30 i ddiolch iddynt. Rhoddir fframwaith trafodaeth ar gyfer y drafodaeth bord gron yn Atodiad 3.

4.14 Darparodd yr arolwg, y cyfweliadau a'r drafodaeth bord gron giplun disgrifiadol o ymwybyddiaeth a phrofiad yr ymadawyr gofal o'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal, a'i heffaith ganfyddedig.

# 5. Canfyddiadau: Gweithredu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal

### Cyflwyniad

5.1 Daeth yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal i rym ar draws holl gynghorau Cymru ar sylfaen statudol o 2019. Fel rhan o'r ddeddfwriaeth, rhoddir eithriad rhag talu'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal hyd at eu pen-blwydd yn 25 mlwydd oed. Cyn hyn, dewisodd rai cynghorau gymhwyso eithriad i ymadawyr gofal hyd at oedran penodol ar sail ddisgresiwn. Ers mis Ebrill 2022, mae'r eithriad wedi'i hymestyn i gynnwys y rheini sydd ag atebolrwydd ar y cyd ac unigol i dalu'r Dreth Gyngor gydag unigolyn nad yw'n ymadäwr gofal. O ystyried natur statudol y mesur, caiff ei gymhwyso i'r holl ymadawyr gofal sy'n bodloni'r meini prawf ac yn gwneud cais am yr eithriad i'r cyngor.

5.2 Mae hyrwyddo'r eithriad a hygyrchedd y wybodaeth sy'n ymwneud â'r cymorth sydd ar gael wedi'i ddiffinio'n lleol. Rhaid i ymadäwr gofal gyflwyno cais am yr eithriad i'r cyngor gan ddefnyddio ffurflen gais y cyngor. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r ymadäwr gofal ddarparu prawf o'i statws, fel y pennir gan y cyngor.

5.3 Gan fod y broses ymgeisio yn cael ei diffinio'n lleol, mae'n debyg bod amrywiaeth rhwng cynghorau o ran pa mor rhwydd yw ceisio'r eithriad. Er mwyn deall yr amrywiaeth o ran gweithredu rhwng cynghorau, defnyddiwyd methodoleg gymysg.


- Gwerthuswyd gwefannau cynghorau Cymru fis Mehefin 2022 i bennu pa mor rhwydd oedd ceisio gwybodaeth a gwneud cais mewn perthynas â'r eithriad i ymadawyr gofal
- Roedd arolwg a gynhaliwyd gyda swyddogion cyngor yn ceisio deall y broses o weithredu a chymhwyso'r eithriad o fewn y cyngor
- Cafwyd trafodaeth bord gron gydag ymadawyr gofal i ddeall profiadau o'r broses

**Gweithredu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal**

*Barn y cynghorau*

5.4 Cynhaliwyd arolwg gyda chynghorau yng Nghymru er mwyn ceisio deall y lefel ymwybyddiaeth o'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal ar draws cynghorau. Awgrymwyd drwy'r arolwg yr ymddengys bod ymwybyddiaeth o'r eithriad yn uchel ymhlith cynghorau, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn gwybod llawer neu dipyn ynghylch yr eithriad. Ni nododd unrhyw ymatebwr nad oedd yn gwybod unrhyw beth ynghylch yr eithriad, a dim ond dau ymatebwr oedd yn teimlo eu bod angen rhagor o hyfforddiant mewn perthynas â'r eithriad.

**Ffigwr 1: Ymateb i gwestiwn arolwg ynghylch ymwybyddiaeth o'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal**




*(Ffynhonnell: Arolwg o gynghorau yng Nghymru, cyfanswm o 23 ymateb)*

5.5 Gofynnwyd i gynghorau adnabod sianelau a ddefnyddir i ymgysylltu pobl a all fod yn gymwys am yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal. Ymatebodd bob un o'r 14 cyngor eu bod yn adnabod ymadawyr gofal drwy rannu data gan yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol, a thrwy gysylltiad â hi. Soniodd nifer am gyflwyno swyddogion cyswllt penodol i'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol a'r gwasanaeth Treth Gyngor. Awgrymodd yr arolwg fod arfer dda eang yn bodoli o ran gweithio ar y cyd rhwng yr adrannau i sicrhau nad yw pobl gymwys yn cael eu methu.

*"Rydym yn cyfnewid data gyda'n hadran Gwasanaethau Cymdeithasol i adnabod unigolion"*

*"Mae'r Adran Treth Gyngor yn cael rhestr gan Wasanaethau Arbenigol ... neu gallwn ofyn am dystiolaeth gan Weithiwr Cymdeithasol."*

*"Mae gennym swyddog cyswllt penodol yn ein tîm gwasanaethau cymdeithasol sy'n darparu gwybodaeth ynghylch ymadawyr gofal cymwys."*

5.6 Gofynnwyd i gynghorau a ydynt yn defnyddio dulliau ychwanegol o sicrhau bod yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal yn cael ei hyrwyddo. Ymatebodd bob cyngor gan nodi bod gwybodaeth i'w chael ar eu gwefan ynghylch yr eithriad. Yn ogystal, soniodd rai cynghorau am ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, cylchlythyrau a datganiadau i'r wasg. Mae'n werth nodi bod yr arolwg wedi'i rannu ag adrannau sy'n gyfrifol am weinyddu'r Dreth Gyngor y mae'n bosib nad oeddent yn ymwybodol o weithgareddau cyhoeddusrwydd neu godi ymwybyddiaeth ychwanegol a all fod wedi'u gwneud gan eu hadran Gwasanaethau Cymdeithasol.

*"[Rydym yn darparu] gwybodaeth ar ein gwefan a chylchlythyr i sefydliadau ieuenctid"*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau Cymru)

*"Darperir gwybodaeth yn ystod y broses filio flynyddol ac mae manylion hefyd ar gael ar wefan y cyngor. Mae tudalen we bwrpasol ar gyfer costau byw hefyd, ac ar honno ceir manylion am argaeledd gostyngiadau i ymadawyr gofal. Yn ogystal, cynhelir ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol o bryd i'w gilydd sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o'r disgowntiau/eithriadau sydd ar gael."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau Cymru)

*"[Rydym yn darparu gwybodaeth drwy] gyfryngau cymdeithasol a thrwy'r tîm Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfathrebu â derbynwyr posib yr eithriad.*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau Cymru)

5.7 Gofynnwyd i gynghorau pa ymarferion sy'n cefnogi gwaith gweinyddu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal. Cafodd cyswllt a rhannu data mewnol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol eu crybwyll gan bob ymatebwr. Crybwyllodd un cyngor fod canllawiau Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddefnyddiol. Ymddengys

bod gan gynghorau brosesau da ar waith i adnabod ymadawyr gofal ymhlith eu preswylwyr ac y mae eu hadran gwasanaethau cymdeithasol eu hunain yn gyfrifol amdanynt.

*Barn yr ymadawyr gofal*

5.8 Cynhaliwyd bord gron gyda chwe ymadäwr gofal rhwng 18 a 25 mlwydd oed, y cwbl yn byw'n annibynnol. Cafwyd trafodaeth led-strwythuredig i ddeall eu profiad o geisio'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal.

5.9 Cafodd pedwar o'r chwe ymadäwr gofal a gymerodd ran yn yr ymchwil wybod am yr eithriad Treth Gyngor drwy eu Cynghorydd Pobl Ifanc Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafodd un wybodaeth ynghylch y Dreth Gyngor ar wefan y cyngor a chafodd un wybod am yr eithriad gan eiriolwr ymadawyr gofal o Voices for Care Cymru. Cafodd yr ymadawyr gofal y rhoddwyd gwybod iddynt am yr eithriad gan eu Cynghorydd Pobl Ifanc, wybod amdani, yn nodweddiadol, cyn iddynt ymadael â gofal a symud i fyw'n annibynnol.

5.10 Roedd canfyddiadau o ddefnyddioldeb y cyngor a gafodd ymadawyr gofal gan eu cyngor lleol yn amrywio. Cysylltodd un ymadäwr gofal, a gafodd wybod am yr eithriad ar wefan ei chyngor, â'i chyngor lleol a theimlodd eu bod nhw'n gwybod mwy am yr eithriad na'i Chynghorydd Pobl Ifanc, nad oedd wedi sôn am yr eithriad gyda hi. Wedi dweud hynny, cysylltodd un ymadäwr gofal â'r cyngor sawl gwaith a methodd â dod o hyd i rywun a oedd yn gwybod am yr eithriad.

*"Rwy'n cofio siarad â phobl dros y ffôn ac nid oedd ganddynt lawer o wybodaeth ynghylch yr eithriad i ymadawyr gofal. Rwy'n cofio gofyn i sawl un dros y ffôn, ac anfon negeseuon e-bost ac roedd pobl yn dal i ddweud nad oeddent yn sicr o'r holl fanylion.' Felly, mae'n anodd dod o hyd i rywun sydd wirioneddol yn deall ei bethau."*

(Ymadäwr gofal, cyfranogwr bord gron)

5.11 Roedd gan yr ymadawyr gofal safbwyntiau cymysg ynghylch pa mor ddefnyddiol oedd y Cynghorwyr Pobl Ifanc o ran darparu gwybodaeth. Bu nifer yn dibynnu ar eu Cynghorydd Pobl Ifanc am gyngor, eraill heb gael unrhyw wybodaeth gan eu Cynghorydd Pobl Ifanc, a dywedodd un unigolyn fod ei Gynghorydd Pobl Ifanc wedi rhoi'r wybodaeth anghywir iddo.

*"Dywedodd fy Nghynghorydd Pobl Ifanc wrthyf nad yw dau unigolyn sy'n ymadawyr gofal ac sy'n byw gyda'i gilydd yn gymwys am eithriad treth. Dydw i ddim yn sicr a yw hyn yn wir ai peidio"*

(Ymadäwr gofal, cyfranogwr bord gron)

5.12 Bu'n rhaid i nifer o ymadawyr gofal dalu'r Dreth Gyngor wrth iddynt aros i waith gweinyddu'r eithriad gael ei gwblhau. Fel rheol, roedd hyn oherwydd oedi o ran tystio'r eithriad. Mewn rhai achosion, bu'n rhaid i ymadawyr gofal fynd ati'n rhagweithiol i drefnu tystiolaeth, ar ffurf llythyr, gan eu hadran Gwasanaethau Cymdeithasol.

5.13 Ymddengys bod gwahaniaethau rhwng profiad y cyngor a phrofiad yr ymadawyr gofal mewn perthynas â nifer o agweddau. Ni chafodd unrhyw un o'r ymadawyr gofal a gyfwelwyd wybod am yr eithriad drwy gyswllt uniongyrchol gan y cyngor, ond nododd y cynghorau mai eu prif sianel adnabod oedd data gan eu hadran Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn cael ei ddefnyddio i adnabod ymadawyr gofal, a chysylltu â nhw, mewn perthynas â'r eithriad. Yn ogystal, nododd bob cyngor a ymatebodd eu bod yn ymwybodol o'r eithriad, ond nid oedd y ddealltwriaeth hon yn amlwg i bob un o'r ymadawyr gofal pan aethant ati i gysylltu â'r cyngor.

**Rhwystrau rhag gweithredu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal**

5.14 Y prif rwystr rhag gweithredu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal a adnabuwyd drwy ymatebwyr i'r arolwg cynghorau oedd symud ymadawyr gofal rhwng anheddau, yn enwedig pan oedd hyn yn golygu symud rhwng ardaloedd cyngor. Pwysleisiodd yr ymatebwyr y canlynol:

- Pan mae ymadawyr gofal yn symud i ardal, gall fod yn anodd cael gafael ar wybodaeth gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol allanol
- Pan mae ymadawyr gofal yn symud eiddo, efallai na fyddant yn amlwg i'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn methu â gwneud hawliad am yr eithriad Treth Gyngor yn yr eiddo newydd

*"Mae cael cadarnhad o statws ymadäwr gofal gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol eraill mewn cynghorau eraill yn anodd iawn."*

*(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau Cymru)*

5.15 Dywedodd un ymatebydd i'r arolwg cynghorau fod gweithredu'r eithriad i ymadawyr gofal wedi'i rwystro oherwydd bod meddalwedd gan eu cyflenwr TG wedi'i chyflwyno'n hwyrach iddynt a bod honno'n galluogi rhannu data gyda Gwasanaethau Cymdeithasol, ond bod hyn wedi'i ddatrys erbyn hyn.

5.16 Ymddengys bod lefel o rwystredigaeth ymhlith gweinyddwyr y Dreth Gyngor bod tystio statws ymadawyr gofal yn dibynnu ar adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Awgrymodd nifer o ymatebwyr i'r arolwg cynghorau y dylid rhoi tystysgrif neu gerdyn i ymadawyr gofal pan maent yn gadael gofal y gellir ei ddefnyddio i dystio eu statws. Gall yr oedi o ran ceisio gwybodaeth gan Wasanaethau Cyhoeddus, yn enwedig gan adran Gwasanaethau Cyhoeddus o gyngor arall, arwain at ddechrau camau gweithredu ôl-ddyledion.

*"Rhowch dystysgrif i bob ymadäwr gofal pan mae'n gadael gofal y gall ei chyflwyno i ba bynnag ardal cyngor mae'n preswylio ynddi."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau Cymru)

*"Rhowch gerdyn i ymadawyr gofal pan maent yn symud o ofal y gallant ei gyflwyno lle bynnag maent yn byw i sicrhau nad ydynt yn cael bil y Dreth Gyngor."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau Cymru)

*"Mae angen mynediad at ddata neu wybodaeth arnom i adnabod ymadawyr gofal ein hunan i hyrwyddo a dyfarnu heb ddibynnu ar gadarnhad gan wasanaethau cymdeithasol."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau Cymru)

5.17 Mewn cyfweliad gyda'r Care Leavers Association, adnabuwyd y ddau brif rwystr rhag gweinyddu'r eithriad.

Yn gyntaf, ymddengys bod dryswch ynghylch pa un ai a oedd yr eithriad Treth Gyngor yn berthnasol yn unig i ymadawyr gofal a oedd wedi derbyn gofal yn ardal y cyngor. Teimlasant nad oedd digon o wybodaeth ynghylch cymhwyso'r eithriad ar gyfer ymadawyr gofal yn symud rhwng ardaloedd cyngor ac nid oes canllawiau ar gyfer cynghorau neu weithwyr cymorth ar hyn. Teimlodd y Care Leavers Association fod hyn yn arbennig o broblemus ar gyfer ymadawyr gofal yn croesi i

Gymru neu allan o Gymru. Maent yn argymell canllawiau clir ar gyfer ymadawyr gofal, gweithwyr cymorth a chynghorau ledled y DU.

Yn ail, nododd ymatebwyr fod ceisio gwybodaeth ynghylch y broses ymgeisio drwy wefannau cyngor yn ddrud o ran amser, yn ddryslyd ac yn amrywio rhwng cynghorau. Ar gyfer rhai cynghorau, nid yw'r wybodaeth ar gael ac i eraill nid yw'n glir lle mae'r wybodaeth yn cael ei chadw.

> *"Mae angen i ddogfennau fod yn hygyrch, fel nad ydych yn chwilio am eithriadau."*

(Cyfweliad â Care Leavers Association)

5.18 Yn ôl ymadawyr gofal, y prif rwystrau rhag ceisio'r eithriad i ymadawyr gofal oedd mynediad at wybodaeth o ansawdd a thystio eu statws.

5.19 Ymddengys bod diffyg cysondeb o ran ansawdd a phrydlondeb darparu gwybodaeth i ymadawyr gofal gan yr adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol perthnasol. Cafodd y rhan fwyaf o ymadawyr gofal a gymerodd ran yn yr ymchwil wybod am yr eithriad cyn iddynt fyw'n annibynnol. Roedd darparu'r wybodaeth yn hwyr yn achosi lefel sylweddol o straen.

> *"Ond wedyn cefais y wybodaeth hon ynghylch yr eithriad treth yn llawer rhy hwyr, a minnau'n tynnu gwallt fy mhen yn poeni sut oeddwn am fyw a thalu'r dreth gyngor neu fudd-daliadau eraill"*

(Ymadäwr gofal, cyfranogwr bord gron)

5.20 Roedd ansawdd y gefnogaeth a ddarparwyd gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol i ymadawyr gofal yn amrywio'n sylweddol rhwng ymadawyr gofal. Cafodd rai ymadawyr gofal gymorth Gwasanaethau Cymdeithasol drwy Gynghorydd Pobl Ifanc nes eu bod yn 25 mlwydd oed. Cafodd eraill eu "rhyddhau" rhag Cynghorydd Pobl Ifanc ar ôl eu hystyried yn ddigon annibynnol. Ar gyfer ymadawyr gofal heb unrhyw gymorth Gwasanaethau Cymdeithasol, nid oedd unrhyw un i'w cynghori petaent yn symud tŷ neu angen rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth o'u statws ymadäwr gofal wedi hynny.

5.21 Roedd y profiad o geisio gwybodaeth sy'n cael ei darparu gan y cyngor, ar-lein ac wyneb yn wyneb, yn amrywio'n sylweddol. Ymddengys nad yw hygyrchedd gwybodaeth ac ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd gan wefannau'r cyngor a swyddogion y cyngor yn gyson ar draws cynghorau nac ar draws profiad ymadawyr gofal.

5.22 Teimlodd y mwyafrif o gynghorau nad oedd COVID-19 wedi cael effaith ar weithredu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal. Dywedodd un ymatebydd i'r arolwg cynghorau y gall fod llai o ymweliadau gan Wasanaethau Cymdeithasol a gostyngiad yn y rhwydweithiau cymorth wedi ymyrryd ar geisiadau.

**Tystiolaeth o hygyrchedd yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal**


5.23 Caiff yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal ei rheoli drwy ddeddfwriaeth. Mae'n ofynnol ar y cyngor ddarparu'r eithriad i bob ymadäwr gofal sy'n bodloni'r meini prawf ac sy'n gwneud cais am yr eithriad. Mae cymhwyso'r eithriad i ymadawyr gofal yn dibynnu ar yr ymadäwr gofal yn gwneud cais yn uniongyrchol i'r cyngor. Y brif ffynhonnell wybodaeth a ddarperir i breswylwyr ynghylch eithriadau a disgowntiau, a'r brif ffordd o wneud cais amdanynt, yw drwy wefan y cyngor.

5.24 Cynhaliwyd gwaith ymchwil cynradd fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn cynnwys archwiliad o wefannau cynghorau Cymru. Ym mis Mehefin 2022, gwerthuswyd gwefan pob cyngor yng Nghymru i ddeall darpariaeth gwybodaeth a pha mor rhwydd yw gwneud cais.

5.25 Cafodd mynediad at wybodaeth ei rannu yn y categorïau Da, Cymedrol neu Wael. Y meini prawf dan sylw oedd pa mor rhwydd yw ceisio'r wybodaeth, pa mor rhwydd yw gwneud cais, a darpariaeth gwybodaeth ynghylch eithriadau a oedd yn mynd y tu hwnt i restr o ddosbarthiadau eithrio. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch categoreiddio yn yr adran Fethodoleg (3.3 uchod).

5.26 Dim ond pum cyngor yr ystyriwyd bod hygyrchedd Da at ffurflen gais ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal, roedd gan naw hygyrchedd Cymedrol at ffurflen gais yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal ac roedd gan wyth hygyrchedd Gwael.

**Ffigwr 2: Hygyrchedd yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal (nifer y cynghorau)**




*(Ffynhonnell: Arolwg o wefannau 22 o gynghorau yng Nghymru)*

5.27 Yn achos y rhan fwyaf o wefannau cynghorau y dywedwyd bod ganddynt hygyrchedd Cymedrol, golygwyd hyn eu bod wedi crybwyll ymadawyr gofal mewn rhestr helaeth o ddosbarthiadau eithriadau rhag atebolrwydd y Dreth Gyngor.

5.28 Roedd saith o wyth o wefannau'r cynghorau y dywedwyd bod ganddynt hygyrchedd gwael heb gynnwys ymadawyr gofal yn y rhestr o eithriadau'r Dreth Gyngor. Tybir nad yw'r rhestri wedi'u diweddaru ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Gall hyn fod yn effaith barhaus o ymyrraeth i wasanaeth cynghorau oherwydd COVID-19.

5.29 Un o'r prif broblemau o ran hygyrchedd, a oedd yn gyffredin i'r mwyafrif o'r gwefannau, oedd gwybodaeth ar wahân ynghylch Gostyngiadau, Disgowntiau neu Eithriadau. Ar rai gwefannau, gellir ceisio gwybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal drwy ddewis Disgowntiau, ac ar gyfer safleoedd eraill ceisir gwybodaeth drwy ddewis Eithriadau. Roedd rhai gwefannau yn darparu gwybodaeth ar ôl dewis naill ai Disgowntiau neu Eithriadau. Yn nodweddiadol, roedd hi'n haws dod o hyd i wybodaeth ynghylch yr eithriad i ymadawyr gofal os oedd gan y cyngor un detholiad a oedd yn cynnwys Disgowntiau ac Eithriadau.

5.30 Roedd gan chwech o gynghorau Cymru ddiffiniad clir o'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal. Roedd y cynghorau yn weddill naill ai'n sôn am ymadawyr gofal mewn rhestr o eithriadau i'r Dreth Gyngor neu heb sôn am yr eithriad Treth Gyngor i

ymadawyr gofal. Un enghraifft o eglurhad a llwybr ymgeisio clir mewn perthynas â'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal yw gwefan Cyngor Sir Ddinbych[14]. Gweler yr enghraifft hon yn Atodiad 4.

*Arferion darparu gwybodaeth a hygyrchedd da gan gynghorau*

5.31 Mae arfer dda o ran cyfathrebu a gwneud cais am yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal yn cynnwys y nodweddion canlynol ar wefan:

- Disgrifiad o gymhwysedd i'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal
- Llwybr hygyrch, rhwydd drwy wefan y cyngor at wybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal
- Dolen hygyrch at y ffurflen gais safonol a ddefnyddir gan y cyngor ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal

5.32 Gwerthuswyd pum cyngor yn Dda o ran hygyrchedd a gwybodaeth, sef Sir Gâr, Caerdydd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Sir Benfro. Gellid ystyried gwefannau'r cynghorau hyn yn enghreifftiau o arfer dda ar gyfer cynghorau eraill.

5.33 Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys:

- Opsiwn ar gyfer "Disgowntiau ac Eithriadau" ar dudalen hafan y Dreth Gyngor. Golyga hyn nad oes angen i'r defnyddiwr ddeall y gwahaniaethau rhwng y ddau derm
- Rhestr o ddisgowntiau ac eithriadau'r Dreth Gyngor ar ffurf y mae modd ei hymhelaethu yn caniatáu i rywun ddewis rhagor o wybodaeth ar gyfer pob dosbarth disgownt neu eithriad
- Eglurhad eglur o bob disgownt neu eithriad Treth Gyngor
- Llwybr amlwg at y ffurflen gais

Gweler gwybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal ar wefan Cyngor Sir Ddinbych yn Atodiad 4.

---

[14] Tudalen we Cyngor Sir Ddinbych, https://www.denbighshire.gov.uk/cy/treth-y-cyngor/disgowntiau-a-eithriadau.aspx

# 6. Canfyddiadau: Effaith yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal

### Barn y cyngor am effaith yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal

6.1 Gofynnwyd i gynghorau a oeddent yn credu bod yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal wedi'i chyflwyno'n effeithiol ai peidio. Dywedodd bob cyngor a gymerodd ran yn yr arolwg bod yr ymyriad yn un effeithiol neu effeithiol iawn.

6.2 Teimlodd ymatebwyr y cyngor fod effaith yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal yn arwyddocaol i breswylwyr. Roedd y brif effaith yn un ariannol, ond soniodd cynghorau hefyd am y gostyngiad mewn dyled a'r effaith gysylltiedig â hynny ar iechyd meddwl, a lleihau baich y gwaith gweinyddol sydd ynghlwm â hawlio budd-daliadau. Dywedodd dau gyngor fod yr eithriad yn hyrwyddo ymgysylltiad â'r cyngor ac yn caniatáu i'r cynghorau ddefnyddio'r ymgysylltiad hwnnw i sicrhau'r incwm uchaf a'r cymorth budd-daliadau gorau.

*"Mae'n rhaid i'r arian a arbedir fod o fudd, ac mae'n dipyn o beth i oedolion ifanc iawn, nad oes ganddynt deulu agos, ddod i wybod sut mae sefydlu cyllideb ar gyfer yr aelwyd, felly mae hyn yn helpu."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

*"Llai o bwysau ariannol. Mae'n ein caniatáu ni i helpu gydag incwm, yn cynyddu ymgysylltiad ac yn darparu atgyfeiriad at asiantaethau cynghori a gwybodaeth ynghylch budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

*"[Byddai'n gymorth] mawr. Er y byddai'r rhan fwyaf wedi bod yn gymwys am ostyngiad yn y Dreth Gyngor, mae'r eithriad yn golygu llai o waith ac mae'n fwy effeithiol, ac yn dangos bod y Cyngor yn eu cefnogi."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

*"[Byddai'n gwneud] gwahaniaeth sylweddol gan ei fod yn arwain at waredu dyled, lliniaru straen ac yn cael gwared ar yr angen i hawlio gostyngiad yn y Dreth Gyngor.*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

**Barn ymadawyr gofal am effaith yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal**

6.3 Roedd ymateb yr ymadawyr gofal a gymerodd ran yn y drafodaeth bord gron yn arbennig o gadarnhaol mewn perthynas â chyflwyno'r eithriad Treth Gyngor. "*Mae'n braf cael polisi cyffredinol,"* meddai un. Drwy gyflwyno polisi cyffredinol ledled Cymru, teimlwyd ei fod yn gwneud y broses ymgeisio yn llawer haws gan nad oedd angen i ymadawyr gofal neu eu Cynghorydd Pobl Ifanc ddeall polisi cyngor penodol.

6.4 Teimlodd ymadawyr gofal fod goblygiadau ariannol yr eithriad Treth Gyngor yn sylweddol, yn enwedig gan fod cymaint wedi nodi mai prin oedd eu profiad o gyllidebu. Dywedodd un ferch y byddai'n debygol o fod yn ddigartref pe na fyddai wedi'i heithrio, gan na fyddai wedi gallu fforddio byw'n annibynnol.

*"Dydw i erioed wedi meddu ar sgiliau cyllidebu. Roedd popeth yr oedd ei angen arnaf pan oeddwn mewn gofal yn cael ei brynu i mi, felly dydw i erioed wedi gorfod cynilo i brynu pethau. Rwyf wedi gorfod mynd ar gwrs ac erbyn hyn rwy'n teimlo fy mod wedi gwella fy sgiliau."*

(Ymadäwr gofal, cyfranogwr bord gron)

*"[Mae'n] arbed tua £600-700 y flwyddyn; mae'n well gen i gyfrannu hynny at ynni"*

*"Rwy'n meddwl pe na fyddai gan ymadawyr gofal yr eithriad hwn, mae'n bosib y byddant yn poeni sut fyddant yn talu'r biliau gan fod rhaid i chi dalu am bopeth yn y tŷ, e.e. biliau nwy, dŵr, trydan a bwyd ac rwy'n meddwl bod eich gallu i fforddio pethau yn dibynnu ar a oes gennych swydd ai peidio."*

(Ymadäwr gofal, cyfranogwr bord gron)

*"[Pe na fyddai'r eithriad yn cael ei chynnig] Rwy'n credu y byddwn yn troi at ddigartrefedd, byddai'n rhatach."*

(Ymadäwr gofal, cyfranogwr bord gron)

*"Pan ddechreuais fyw ar fy mhen fy hun, cefais ychydig o fraw. Pan oeddwn mewn gofal, roedd popeth yn cael ei dalu amdano i mi, felly nid oedd gennyf sgiliau cyllidebu yn barod ar gyfer yr amser pan roedd rhaid i mi dalu biliau a thalu am fwyd, felly roeddwn yn gorfod dewis rhwng talu biliau neu dalu am fwyd byth a beunydd. Weithiau, byddai'n rhaid i mi dalu fy miliau ddwywaith y mis nesaf oherwydd biliau annisgwyl."*

(Ymadäwr gofal, cyfranogwr bord gron)

6.5 Caiff diwedd yr eithriad pan mae rhywun yn troi'n 25 mlwydd oed ei ystyried yn broblemus gyda sawl un o'r ymadawyr gofal yn disgrifio diwedd yr eithriad yn "ddychrynllyd". Byddai'n well gan yr ymadawyr gofal ddull fesul camau tuag at atebolrwydd llawn i dalu'r Dreth Gyngor a llawer mwy o wybodaeth ynghylch faint y dylent ddisgwyl ei dalu ac effaith cael partner.

*"Doeddwn i ddim wedi deall ei bod yn dod i ben pan oeddwn yn troi'n 25 mlwydd oed. Rwyf wedi dychryn ac nid wyf yn gwybod faint fydd y bil hyd yn oed"*

(Ymadäwr gofal, cyfranogwr bord gron)

*"Ie, rwy'n teimlo y dylent gyflwyno ymadawyr ifanc yn araf i'r Dreth Gyngor gan y gall fod yn brofiad brawychus tu hwnt i ymadawyr gofal, yn enwedig gan nad wyf yn gwybod faint fydd bil y Dreth Gyngor hyd yn oed."*

(Ymadäwr gofal, cyfranogwr bord gron)

*"Nid wyf yn credu y dylai bod cyfyngiad oedran i'r eithriad, oherwydd nid yw'r blynyddoedd o fod mewn gofal yn diflannu pan fyddwch yn cyrraedd 25 mlwydd oed"*

(Ymadäwr gofal, cyfranogwr bord gron)

**Barn trydydd partïon ar effaith yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal**

6.6 Roedd ymateb y sefydliadau trydydd parti yn arbennig o gadarnhaol ynghylch cyflwyno'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal.

6.7 Teimlodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal yn cael effaith gadarnhaol ac yn "flaengar iawn". Dywedodd fod nifer o gynghorau wedi bod yn rhoi eithriadau ar sail ddisgresiwn cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth, a chroesawodd safoni'r cymorth ledled Cymru.

6.8 Nododd y Care Leavers Association fod yr effaith ar gyllidebau yn sylweddol gan, yn aml, nid oes gan ymadawyr gofal gymorth gan deulu estynedig wrth iddynt bontio i fyw'n annibynnol. Awgrymasant barhau'r eithriad ar ôl 25 mlwydd oed er mwyn

adlewyrchu'n well yr oedran mae'r rheini nad ydynt yn ymadawyr gofal yn gadael y cartref neu'n peidio â dibynnu'n ariannol ar rieni.

6.9 Roedd Mind Cymru yn gefnogol iawn o'r mesur, gan sôn am y berthynas rhwng dyled ac iechyd meddwl. Teimlasant y byddai amddiffyn rhag dyled Treth Gyngor yn fuddiol i iechyd meddwl ymadawyr gofal.

**Tystiolaeth ystadegol o effaith yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal**

6.10 Gall dadansoddiad ystadegol o nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal a ddarparwyd ledled Cymru fod yn sail i ddealltwriaeth o effaith yr ymyriad gan Lywodraeth Cymru.


6.11 Cyn 2019, roedd rhai cynghorau yn dewis rhoi'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal, ac ni chafodd yr eithriadau eu cofnodi yng nghyfres ddata Treth Gyngor berthnasol StatsCymru. Ers 2019, mae'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal wedi'i chymhwyso ar sail statudol ac ers hynny mae'r eithriadau wedi'u cofnodi yng nghyfres ddata Treth Gyngor StatsCymru[15]. Y flwyddyn gyntaf o ddata'r eithriadau yw 2020 – 2021.

6.12 Mae nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2020. Yn 2020 - 2021, y flwyddyn gyntaf o ystadegau, darparwyd eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal i 493 o ymadawyr gofal ledled Cymru. Cynyddodd hyn i 646 yn 2021 – 2022 ac i 746 yn 2022 - 2023. Cynrychiola hyn gynnydd o 51% yn yr eithriadau rhwng blynyddoedd ariannol 2019 – 2020 a 2022 – 2023. O blith y 24 dosbarth eithriad i'r Dreth Gyngor, erbyn hyn yr eithriadau ar gyfer ymadawyr gofal yw'r wythfed uchaf o ran niferoedd. Gweler y cynnydd yn yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal o 2020 – 2021 i 2022 - 2023 yn Ffigwr 3 isod.

---

[15] StatsCymru, Anheddau sydd wedi'u heithrio rhag Treth Gyngor, fesul dosbarth (nifer yr anheddau),


**Ffigwr 3: Nifer yr eithriadau rhag talu'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal, ledled Cymru, 2020 – 2021 i 2022 - 2023**




*(Ffynhonnell: StatsCymru: Anheddau sydd wedi'u heithrio rhag Treth Gyngor, fesul awdurdod lleol (nifer yr anheddau), dosbarth eithrio X- Ymadawyr Gofal)*

6.13 Mae nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal yn amrywio'n sylweddol rhwng cynghorau. Mae ychydig llai na hanner yr eithriadau yn cael eu darparu gan bedwar cyngor: Caerdydd, Abertawe, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili. Nid yw Blaenau Gwent wedi darparu unrhyw eithriadau Treth Gyngor ar gyfer ymadawyr gofal ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Mae'r amrywiaeth yn nifer yr eithriadau yn debygol o adlewyrchu'r amrywiaeth yn y boblogaeth sy'n gymwys am yr eithriad ledled Cymru.

**Ffigwr 4: Nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal, fesul cyngor Cymru, 2020 – 2021 i 2022 – 2023**




*(Ffynhonnell: StatsCymru: Anheddau sydd wedi'u heithrio rhag Treth Gyngor, fesul awdurdod lleol (nifer yr anheddau), dosbarth eithrio X- Ymadawyr Gofal)*

6.14 Mae data nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal a ddengys yn Ffigwr 3 a Ffigwr 4 yn adlewyrchu effaith cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn 2019[16]. Roedd hwn yn darparu ar gyfer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal sydd wedi'u cymhwyso ar gyfer un deiliad tŷ perthnasol, neu os yw'r ymadäwr gofal yn rhannu eiddo gydag unigolyn arall sydd wedi'i eithrio. Disgwylir y bydd ffigyrau terfynol ar gyfer 2022 – 2023 ac o 2023 – 2024 ymlaen yn dangos cynnydd pellach yn niferoedd yr eithriadau oherwydd bod yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal wedi'i ymestyn i ymadawyr gofal sy'n byw gydag unigolyn heb ei eithrio. Daeth y ddeddfwriaeth[17] i rym fis Ebrill 2022.

*Y cysylltiad rhwng yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal a'r boblogaeth gymwys*

---

[16] Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) (Diwygio) (Cymru), 2019
[17] Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd ar y Cyd ac Unigol Personau sy'n Ymadael â Gofal) (Cymru) 2022

6.15 Mae'r cydberthynas rhwng y boblogaeth a all fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal a nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal a roddir gan bob cyngor yng Nghymru yn rhoi awgrym o ba mor gyson mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei chymhwyso ar draws cynghorau Cymru.

6.16 Ni ddisgwylir i'r gydberthynas rhwng y boblogaeth a all fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal a nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr ifanc a roddir fod yn un absoliwt. Dyma rai o'r ysgogwyr sydd wrth wraidd y cymhwysiad:

- **Cyfansoddiad aelwyd y boblogaeth a all fod yn gymwys**. Dim ond yr ymadawyr gofal hynny sy'n byw ar eu pen eu hunain neu'n rhannu eiddo gydag unigolyn arall wedi'i eithrio a gafodd eithriad lawn rhag y Dreth Gyngor rhwng 2019 - 2022. Cyn 2022, os oedd ymadäwr gofal yn byw gydag unigolyn yn cael ei gyfrif at ddibenion atebolrwydd y Dreth Gyngor, byddai gostyngiad o 25% yn cael ei chymhwyso i'r Dreth Gyngor, yn hytrach nag eithriad lawn rhag atebolrwydd. Darperir data disgowntiau sydd wedi'i gyhoeddi (yn hytrach nag eithriadau) fel cyfanswm wedi'i gyfanredu; nid yw'n bosib canfod disgowntiau sy'n ymwneud yn arbennig ag ymadawyr gofal. Bydd cyfansoddiad aelwyd yn adlewyrchu gwahaniaethau yn y stoc tai ac argaeledd rhwng cynghorau
- **Darpariaeth llety â chymorth**, a fydd yn amrywio rhwng cynghorau. Pan mae ymadawyr gofal yn symud i lety â chymorth yn 18 mlwydd oed, ni fydd atebolrwydd arnynt i dalu'r Dreth Gyngor, ac felly ni chânt eu cyfrif yn nata eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal
- **I ba raddau mae cyngor yn lleoli plant sy'n derbyn gofal o fewn ei ffiniau ei hun.** Mae gan rai cynghorau ddarpariaeth gyfyngedig ac felly caiff cyfran fawr o blant sy'n derbyn gofal eu lleoli y tu hwnt i ardal y cyngor.
- Disgwylir y byddai rhanbarthau ledled Cymru yn gweld gwahanol symudiadau poblogaeth wrth i ymadawyr gofal gyrraedd oedolaeth. Mae'r gyfran sy'n parhau yn unrhyw ardal cyngor ar ôl 18 mlwydd oed yn debygol o amrywio. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yng Nghymru a Lloegr yn 2021, roedd y

symudiad poblogaeth i ddinasoedd a threfi mawr yn digwydd ar y cyfan ymhlith myfyrwyr ac oedolion ifanc[18] .

6.17 Gyda'r cafeatau hyn mewn cof, cafodd y boblogaeth a all fod yn gymwys ei chymharu â nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal a gymhwyswyd ar gyfer pob cyngor yng Nghymru.


6.18 Dengys Ffigwr 4 y cymhwysedd posib ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal, ar gyfartaledd ar draws 2019 – 2020 i 2022 – 2023, a nifer cyfartalog yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal a gymhwyswyd, fesul cyngor yng Nghymru. Mae cydberthynas gadarnhaol gref rhwng y boblogaeth a all fod yn gymwys a nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal a gymhwyswyd fesul cyngor[19]. Mae cynghorau sydd â phoblogaeth a all fod yn gymwys uwch ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal, ar y cyfan yn cymhwyso nifer uwch o eithriadau. Ceredigion sydd â'r boblogaeth isaf a all fod yn gymwys ac yn cymhwyso'r nifer leiaf ond un o eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal. Caerdydd sydd â'r boblogaeth uchaf a all fod yn gymwys ac yn cymhwyso'r nifer uchaf o eithriadau. Wrecsam sydd â'r gwahaniaeth mwyaf, sy'n cymhwyso'r nifer uchaf o eithriadau Treth Gyngor na'r disgwyl ond nid yw'r gwahaniaeth â'r cymedr yn ystadegol sylweddol[20].

[18] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Deall trefi yng Nghymru a Lloegr: dadansoddiad o boblogaeth a demograffeg (https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/articles/understandingtownsinenglandandwalespopulationanddemographicanalysis/2021-02-24), Chwe 2021

[19] Canfu fod cydberthynas gadarnhaol gref rhwng y nifer blynyddol cyfartalog o eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal a'r nifer blynyddol cyfartalog o ymadawyr gofal *r* (n22) = .82 (Cyfernod Cydberthynas Pearson)

[20] Wrecsam gwerth Z 2.36< gwerth critigol Z 2.76. Mae'r sgôr-Z yn fesuriad rhifiadol sy'n disgrifio perthynas gwerth gyda chymedr grŵp o werthoedd.

**Ffigwr 5: Nifer blynyddol cyfartalog yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal (2020 – 2023) a'r boblogaeth flynyddol gyfartalog o ymadawyr gofal (2020 – 2021), fesul cynghorau Cymru**




*(Ffynhonnell: Eithriadau o StatsCymru: Anheddau sydd wedi'u heithrio rhag Treth Gyngor, fesul awdurdod lleol (nifer yr anheddau), dosbarth eithrio X- Ymadawyr Gofal. Ymadawyr gofal gan StatsCymru Penodau sy'n gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (16 oed a throsodd) yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw a rheswm dros orffen*


*Y berthynas rhwng hygyrchedd gwefan ac eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal*

6.19 Awgryma dadansoddiad ystadegol fod cynghorau Cymru yn tueddu i gymhwyso lefelau disgwyliedig o eithriadau rhag talu'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal, o fewn ffiniau rhesymol, o ystyried maint y poblogaethau a all fod yn gymwys. Serch hynny, mae hygyrchedd cymhwyso yn amrywio rhwng cynghorau. Drwy gymharu nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal fesul preswyliwr a all fod yn gymwys mewn cymhariaeth â sgôr hygyrchedd gwefan, gallwn werthuso'r berthynas rhwng hygyrchedd cymhwyso ac eithriadau.

6.20 Rhoddwyd sgôr hygyrchedd i bob cyngor yn seiliedig ar nifer o nodweddion hygyrchedd cadarnhaol a ddengys (rhwng 0 a 3, wedi'u cyfrif mewn camau 0.5). Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch diffiniad nodweddion cadarnhaol yn yr adran Fethodoleg. Caiff y sgôr hygyrchedd ei chymharu â'r gyfran o eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal fesul preswyliwr a all fod yn gymwys. Os yw hygyrchedd

gwefan yn ysgogwr allweddol i nifer yr eithriadau i ymadawyr gofal a ddyfernir gan gyngor, byddem yn disgwyl gweld cydberthynas rhwng y rhain.

**Ffigwr 6: Cymhariaeth o nifer blynyddol cyfartalog yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal (2020 – 20230) mewn cymhariaeth â'r sgôr ar gyfer hygyrchedd y wefan i wybodaeth ynghylch eithriad i ymadawyr gofal**




*(Ffynhonnell: Eithriadau o StatsCymru: Anheddau sydd wedi'u heithrio rhag Treth Gyngor, fesul awdurdod lleol (nifer yr anheddau), dosbarth eithrio X- Ymadawyr Gofal. Ymadawyr gofal gan StatsCymru Penodau sy'n gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (16 oed a throsodd) yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw a rheswm dros orffen. Arolwg hygyrchedd gwefannau 22 o gynghorau yng Nghymru)*

6.21 Mae cydberthynas wan rhwng hygyrchedd, fel y dengys drwy wefannau cynghorau, a nifer yr eithriadau i ymadawyr gofal a roddir gan y cyngor (o ystyried y boblogaeth a all fod yn gymwys)[21]. Nid yw'r gydberthynas yn sylweddol, gan awgrymu mai annhebygol yw bod hygyrchedd gwefan yn cyfrannu at bennu nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal a ddyfernir gan gyngor.

[21] Cyfernod Cydberthynas Pearson r=0.26

## 7. Crynodeb o'r Canfyddiadau

### Gweithredu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal

7.1 Yn ôl Cynghorau a sefydliadau trydydd parti sy'n cefnogi ymadawyr gofal, ceir lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal. Wedi dweud hynny, nid yw'r ymwybyddiaeth hon yn gyson ar draws ymadawyr gofal, sydd fel rheol yn cael gwybod am yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal cyn iddynt ymadael â gofal, os gânt wybod amdani o gwbl.

7.2 Ym mhrofiad ymadawyr gofal, mae'r lefel o ddealltwriaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal ymhlith swyddogion y Dreth Gyngor a swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol yn dameidiog. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos sefyllfaoedd mwy cymhleth, megis pan mae'r ymadäwr gofal yn byw gyda phartner, yn rhannu tŷ gyda rhywun, neu'n symud rhwng ardaloedd cyngor.

7.3 Ymddengys bod gan gynghorau system weddol gyson a llwyddiannus ar gyfer ceisio gwybodaeth gan eu hadran Gwasanaethau Cymdeithasol eu hunain drwy eu proses rhannu data fewnol. Dyma'r prif fecanwaith y mae cynghorau yn nodi eu bod yn ei defnyddio er mwyn adnabod ymadawyr gofal, ac ymgysylltu â nhw. Mae profiad ymadawyr gofal yn awgrymu bod dibynnu ar y dull ymgysylltu hwn yn unig yn golygu y gellir methu rhai ymadawyr gofal. Ni wnaeth y cyngor gysylltu'n uniongyrchol â'r rhan fwyaf o ymadawyr gofal a gymerodd ran yn yr ymchwil. Yn hytrach, hwy wnaeth ysgogi'r cais a hysbysu'r cyngor o'u statws.

7.4 Er mwyn gweithredu'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal, mae'n ofynnol i'r ymadäwr gofal wneud cais am yr eithriad a thystio ei statws. Yn ôl yr ymchwil, mae tystio statws yn rhwystr sylweddol rhag darpariaeth brydlon o'r eithriad Treth Gyngor. Y rheswm dros hyn yw ei fod yn dibynnu ar yr ymadäwr gofal yn cynnal cyswllt gyda'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â'r adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgysylltu'n brydlon ag adran y Dreth Gyngor. Bu i'r gweinyddwyr Treth Gyngor ac ymadawyr gofal groesawu dull arall o dystio statws nad yw'n dibynnu ar Wasanaethau Cymdeithasol. Roedd y rhwystr hwn rhag ceisio tystiolaeth i'w deimlo fwyaf pan oedd ymadawyr gofal yn symud o eiddo i eiddo neu pan nad oeddent yn cael cefnogaeth Cynghorwyr Pobl Ifanc bellach.

**Effaith yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal**

7.5 Roedd pob cyngor a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo bod yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal wedi'i chyflwyno'n effeithiol. Roedd ymadawyr gofal a sefydliadau trydydd parti yn cefnogi ymadawyr gofal hefyd yn teimlo ei fod yn ymyriad effeithiol. Roedd sefydliadau trydydd parti, cynghorau ac ymadawyr gofal a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn i gyd yn teimlo bod y brif effaith yn un ariannol a bod y lefel cefnogaeth yn sylweddol. Dywedodd ymadawyr gofal y gall cyflwyno'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal liniaru rhag niwed yn y dyfodol, megis digartrefedd neu ddyled.

7.6 Mae gwerthusiad ystadegol o effaith yr ymyriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal yn cefnogi'r farn bod yr eithriad i ymadawyr gofal wedi bod yn effeithiol. Mae nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers ei chyflwyno. Erbyn 2022 – 2023, cymhwyswyd 746 o eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal ledled Cymru. Mae hwn yn gynnydd o 51% ers 2019 – 2020.

7.7 Mae nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal a roddwyd gan gynghorau yn amrywio ar draws cynghorau Cymru, gyda phedwar cyngor yn rhoi hanner yr holl eithriadau. Y rheswm dros hyn yw gwahaniaeth daearyddol yn y lledaeniad o blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru, a nifer yr ymadawyr gofal mewn ardal cyngor. Awgryma dadansoddiad ystadegol fod cynghorau Cymru yn cymhwyso lefelau disgwyliedig o eithriadau'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal, o fewn ffiniau rhesymol, o ystyried maint y poblogaethau a all fod yn gymwys. Mewn geiriau eraill, mae'r eithriadau a roddir yn gyson ledled Cymru.

7.8 Cydberthynas wan sydd rhwng nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal a ddarparwyd gan gyngor a hygyrchedd gwybodaeth ar wefan cyngor. Awgryma hyn nad y lefel o wybodaeth a ddarperir gan gyngor yw'r prif benderfynydd o nifer yr eithriadau'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal a roddir.

## 8. Casgliad ac argymhellion

8.1 Mae ymadawyr gofal, sefydliadau trydydd parti sy'n cynrychioli ymadawyr gofal, a chynghorau, oll yn datgan bod effaith yr ymyriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal wedi bod o fudd. Mae'r ffordd mae'r eithriad wedi'i chymhwyso'n gyson ar draws cynghorau wedi'i chroesawu gan sefydliadau trydydd parti ac ymadawyr gofal.

8.2 Yr effaith fwyaf cyffredin a nodwyd oedd effaith ariannol ar gyfer ymadawyr gofal pan maent mewn cyfnod arbennig o fregus. Roedd ymadawyr gofal, yn arbennig, yn teimlo y gallant fod wedi'i chael hi'n anodd yn ariannol i fodloni costau'r Dreth Gyngor yn ogystal â chostau eraill sy'n gysylltiedig â sefydlu cartref. Dywedodd ymadawyr gofal mai, yn aml, prin yw'r profiad sydd ganddynt o gyllidebu a rheoli arian cyn pontio i fyw'n annibynnol, a bod peidio â chael yr eithriad yn gallu cyflwyno risgiau, megis digartrefedd neu ddyled.

8.3 Mae dadansoddiad ystadegol sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn yn rhoi tystiolaeth o'r effeithiau cadarnhaol. Gwelwyd cynnydd o 51% yn nifer yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal a roddwyd ledled Cymru ers 2019, gyda 746 o eithriadau wedi'u rhoi yn 2022- 2023.

8.4 Yn ogystal, mae tystiolaeth ystadegol yn awgrymu cymhwysiad gweddol gyson o'r eithriad Dreth Gyngor i ymadawyr gofal, gyda phob cyngor yn cymhwyso'r eithriadau ar y lefel a ddisgwyliwyd o ystyried y boblogaeth a all fod yn gymwys. Nid oes yr un cyngor yn cymhwyso eithriadau ar lefel sylweddol is na'r disgwyliadau. Ceir cysondeb hefyd o ran mesurau gweithredu, gyda chynghorau, yn nodweddiadol, yn cyflwyno mesurau rhannu data gyda'u hadran Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r ddeddfwriaeth, i'w galluogi nhw dystio statws ymadäwr gofal ac ymgysylltu ag ymadawyr gofal.

8.5 Er bod effaith gadarnhaol amlwg wedi dod o gyflwyno'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal, mae'r ymchwil hefyd yn awgrymu y gall gwybodaeth glir fod yn anodd ei cheisio, gydag amrywiaeth eang yn narpariaeth gwybodaeth ar draws cynghorau a dim ond nifer fach o gynghorau yn darparu mynediad rhwydd at wybodaeth ynghylch yr eithriad a'r cymhwysiad. Mae'r diffyg hwn mewn darpariaeth gwybodaeth yn golygu y gall ymadawyr gofal nad ydynt mewn cyswllt â'r adran

Gwasanaethau Cymdeithasol bellach, gael llai o gymorth nag y bwriadwyd drwy'r ddeddfwriaeth. Mae dibyniaeth cynghorau ar rannu data mewnol gan yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol fel yr unig fecanwaith ar gyfer adnabod ymadawyr gofal, ac ymgysylltu gyda nhw, yn golygu bod risgiau y bydd rhai ymadawyr gofal yn cael eu methu.

8.6 Awgryma'r ymchwil hwn fod cydberthynas wan rhwng nifer disgwyliedig yr eithriadau Treth Gyngor i ymadawyr gofal a pha mor hygyrch yw gwybodaeth drwy wefan cyngor. Mae'n debygol bod darpariaeth gwybodaeth well drwy wefannau cyngor a sianelau eraill yn berthnasol dim ond pan mae ymadäwr gofal wedi colli cyswllt â'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol neu wedi symud rhwng ardaloedd cyngor. Er gwaethaf hynny, i'r ymadawyr gofal hynny sydd wedi'u heffeithio, gall rhwystrau rhag ceisio gwybodaeth achosi oedi sylweddol rhag derbyn cymorth.

8.7 Rhwystr arall a adnabuwyd rhag gweinyddu eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal yn brydlon yw'r angen i dystio statws ymadäwr gofal clir, sydd fel arfer yn cael ei roi gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd ymadawyr gofal a chynghorau y byddant yn croesawu mecanwaith ar gyfer tystio statws ymadäwr gofal nad oedd yn dibynnu ar yr adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, oherwydd eu bod yn teimlo y gallai hyn alluogi gweinyddu'r eithriad yn fwy prydlon.

8.8 Caiff hygyrchedd y wybodaeth ar wefannau'r cyngor ei rwystro gan gynghorau yn defnyddio geirfa wahanol yn eu llwybrau mynediad, yn enwedig y termau "gostyngiad", "eithriad", neu "ddisgownt". Er mwyn ceisio gwybodaeth, gellir atgyfeirio preswyliwr gan ddefnyddio unrhyw rai o'r termau hyn, yn dibynnu ar y cyngor. Mewn rhai achosion, rhaid i ddefnyddwyr fynd drwy sawl llwybr i ddod o hyd i wybodaeth ynghylch yr ystod lawn o eithriadau'r Dreth Gyngor. Efallai y byddai'n syniad i gynghorau ystyried defnyddio dull cyffredin, lle mae pob gostyngiad, disgownt ac eithriad yn dilyn yr un llwybr nes y cânt eu gwahanu gan ddiffiniad eglur.

**Argymhellion**

8.9 Dylai cynghorau ystyried cynnig safonol o gymorth i ymadawyr gofal wedi'i ddarparu gyda'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal. Mae adnabod ymadawyr gofal at

ddibenion gweinyddu eithriad y Dreth Gyngor i ymadawyr gofal yn rhoi cyfle i gynghorau gefnogi ymadawyr gofal drwy wasanaethau eraill y cyngor, megis uchafu incwm (e.e. ceisiadau am fudd-daliadau) a sgiliau cyllidebu.

8.10 Mae angen dull o dystio statws ymadäwr gofal ar gynghorau ac ymadawyr gofal, yn ogystal â'r mecanwaith o rannu data yn fewnol gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n ymddangos yn safonol ar draws cynghorau. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynghorau Cymru, darparwyr gwasanaeth a sefydliadau arbenigol i ddeall y rhwystrau rhag rhannu gwybodaeth ynghylch statws ymadawyr gofal, a meddwl am ddatrysiadau ar y cyd.

8.11 Mae ymadawyr gofal yn poeni am yr ymyl clogwyn y byddant yn ei wynebu pan fydd yr eithriad Treth Gyngor yn dod i ben wrth iddynt droi'n 25 mlwydd oed. Dylai Llywodraeth Cymru a chynghorau Cymru adolygu mecanweithiau i gefnogi ymadawyr gofal drwy'r newid hwn, er enghraifft drwy ffordd fwy graddol o roi cymorth neu drwy rannu gwybodaeth ynghylch Gostyngiad yn y Dreth Gyngor cyn i bobl droi'n 25 mlwydd oed. Byddai hyn yn caniatáu i'r ymadäwr gofal baratoi ar gyfer newid a chyllidebu yn unol â hynny.

8.12 Byddai ymadawyr gofal a sefydliadau sy'n cefnogi ymadawyr gofal yn elwa ar ganllawiau safonol sydd ar gael yn rhwydd drwy wefan holl gynghorau Cymru. Er mai dim ond cydberthynas wan sydd rhwng hygyrchedd gwefannau ac eithriadau'r Dreth Gyngor i ymadawyr gofal, ymddengys bod rhwyddineb mynediad yn hollbwysig i ymadawyr gofal nad ydynt yn weladwy bellach i'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae safoni'r eithriad Dreth Gyngor oherwydd Nam Meddyliol Difrifol yn cynnig templed ar gyfer gweithio ar y cyd yn llwyddiannus, lle mae canllawiau clir ar gael i bob cyngor eu defnyddio; gellid defnyddio dull cyffelyb i'r eithriad Dreth Gyngor i ymadawyr gofal. Mae angen canllawiau ar gyfer ymadawyr gofal, yn ogystal â sefydliadau sy'n eu cefnogi, ar gyfer pob Cynghorydd Pobl Ifanc, ac ar gyfer cynghorau yng ngwledydd eraill y DU.

8.13 Er mwyn targedu cyngor a chanllawiau ar gyfer y dyfodol drwy'r sianelau mwyaf amlwg, dylai cynghorau Cymru ystyried casglu tystiolaeth gan ymadawyr gofal ynghylch sut y daethant i wybod am yr eithriad.

8.14 Dylai cynghorau ystyried defnyddio diffiniadau safonol ar gyfer yr eithriad Treth Gyngor ac eglurhad o eithriadau ar eu gwefannau. Gallai cynghorau nad ydynt eto wedi cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal ar eu gwefannau ddysgu o'r enghreifftiau o arfer dda a geir yn yr adroddiad hwn.

8.15 Dylai Llywodraeth Cymru a chynghorau Cymru ystyried cyflwyno dull cyffredin o ran mynediad at wybodaeth ynghylch gostyngiadau, eithriadau a disgowntiau'r Dreth Gyngor ar wefan. Byddai hyn yn gwaredu'r angen i breswylwyr chwilio pob un o'r opsiynau hyn ar y wefan er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth fwyaf perthnasol.

# 9. Atodiadau

## Atodiad 1: Methodoleg Gwaith Maes

Defnyddiodd M·E·L Research arolwg ar-lein gyda chynghorau yng Nghymru gan ddefnyddio Forsta Plus i gasglu barn. Cysylltwyd â chyfranogwyr fel aelod o Grŵp Refeniw a Budd-daliadau Cymru neu drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel aelod o staff sy'n ymwneud â chasglu treth gyngor neu gefnogi preswylwyr bregus. Gwahoddwyd pobl o'r ddau lwybr hyn i gymryd rhan drwy e-bost, gyda dolen at yr arolwg ar-lein. Roedd cyfranogiad yn wirfoddol a'r atebion yn ddienw. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Awst a mis Medi 2022.

Cynhaliwyd cyfweliadau trydydd parti gan M·E·L Research gyda detholiad o sefydliadau sy'n ymwneud ag un neu ragor o bedwar ymyriad treth gyngor. Dewiswyd cyfranogwyr posib gan ddefnyddio ffynonellau cyhoeddus (e.e. gwefannau sefydliadol, LinkedIn) ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan mewn cyfweliad ar-lein. Cyfweliadau lled-strwythuredig oedd y rhain a fe'u cynhaliwyd o bell (drwy Teams). Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng mis Awst a mis Hydref 2022.

Trefnwyd grŵp ffocws ymadawyr gofal drwy drydydd parti, Voices for Care Cymru. Cafodd ei gynnal ar-lein (drwy Zoom) fis Hydref 2022. Defnyddiodd M·E·L Research ganllaw pwnc i gasglu ymwybyddiaeth o'r eithriad i ymadawyr gofal, y broses ymgeisio, yr effaith y mae wedi'i chael a barn ymadawyr gofal am droi'n 25 mlwydd oed, sef pan fydd yr eithriad yn dod i ben.

## Atodiad 2: Arolwg cynghorau Cymru – cwestiynau ynghylch yr eithriad i ymadawyr gofal

### Eich cefndir

1. Ym mha awdurdod lleol ydych chi'n gweithio?
   Beth yw teitl eich swydd?

### Dealltwriaeth o'r ymyriadau

2. Yn eich barn chi, faint ydych chi'n ei wybod am y ddeddfwriaeth i eithrio ymadawyr gofal tan eu bod yn 25 mlwydd oed?
   Llawer iawn/Cryn dipyn/Ychydig iawn/Dim o gwbl

2a. A ydych chi'n credu bod angen rhagor o hyfforddiant neu wybodaeth arnoch ynghylch yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr
   gofal?
   Ydw/Nac ydw

### Cwestiynau ynghylch yr eithriad i ymadawyr gofal

3. Cyn cyflwyno'r eithriad, a wnaethoch chi ddefnyddio'ch pwerau disgresiwn i eithrio'r rhai sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor, neu roi gostyngiad iddynt?
   Do/Naddo
4. Pa ddulliau, data neu dystiolaeth ydych chi wedi'u defnyddio i adnabod rhai sy'n gadael gofal a allai fod yn gymwys i gael eithriad?
   Ymateb agored
5. Pa ddulliau a sianelau ydych chi wedi'u defnyddio i roi gwybod i'r cyhoedd am yr eithriad i'r rhai sy'n gadael gofal?
   Ymateb agored
6. Beth, os o gwbl, sydd wedi cefnogi gweinyddu'r eithriad ar gyfer unigolion sy'n gadael gofal?
   Ymateb agored
7. Pa rwystrau, os o gwbl, ydych chi wedi'u hwynebu wrth weinyddu'r eithriad ar gyfer unigolion sy'n gadael gofal?
   Ymateb agored
8. Sut fyddech chi'n sgorio ymdrechion eich awdurdod lleol i hyrwyddo'r eithriad i unigolion sy'n gadael gofal?
   Effeithiol iawn, Effeithiol, Aneffeithiol, Aneffeithiol iawn
9. Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae'r eithriad wedi'i wneud i breswylwyr ac aelwydydd sy'n agored i niwed yr ydych wedi'u hatgyfeirio neu eu cefnogi?
   Ymateb agored
10. Pe gallech newid un peth am yr eithriad ar gyfer unigolion sy'n gadael gofal, beth fyddai hwnnw?
    Ymateb agored
11. Pa effaith, os o gwbl, mae pandemig COVID-19 wedi'i chael ar yr ymyriad hwn?
    Ymateb agored

**Atodiad 3: Fframwaith trafodaeth ar gyfer bord gron ymadawyr gofal**

1. A ydych chi'n talu'r dreth gyngor ar hyn o bryd?
   a. Os nad ydych, a ydych wedi'ch eithrio oherwydd eich bod yn ymadäwr gofal?
   b. Os ydych, a ydych yn talu'r swm llawn neu a ydych yn cael gostyngiad?
   c. A ydych chi'n deall pam nad ydych chi'n talu'r swm llawn?

2. (Os wedi'u heithrio oherwydd eu bod yn ymadawyr gofal) Sut gawsoch chi wybod am yr eithriad hwn?

3. Beth yw eich profiad o wneud cais am yr eithriad i ymadawyr gofal?

4. Pa wahaniaeth, os o gwbl, mae'r eithriad hwn yn ei wneud i chi a'ch bywyd (neu fywyd eich teulu)?

5. A fyddech chi'n newid unrhyw beth ynghylch yr eithriad neu'r broses ymgeisio?

6. Mae'r eithriad hwn rhag gorfod talu'r dreth gyngor yn parhau nes eich bod yn 25 mlwydd oed. Os bydd rhaid i chi dalu'r dreth gyngor wedi hynny, pa effaith fydd hyn yn ei chael arnoch?

**Atodiad 4: Gwybodaeth ynghylch yr eithriad Treth Gyngor i ymadawyr gofal ar wefan Cyngor Sir Ddinbych**

Disgownt Person Sengl +

Gofalwyr/gweithwyr gofal +

Bobl sy'n Gadael Gofal (Esemptiad Dosbarth X) +

Gostyngiad oherwydd Anabledd +

## Bobl sy'n Gadael Gofal

O 1 Ebrill 2019, bydd pobl sy’n gadael gofal wedi eu heithrio rhag talu Treth y Cyngor. Os yw sawl sy’n gadael gofal yn byw ar ben ei hun, neu os mai dim ond pobl sy'n gadael gofal sy’n byw yn yr eiddo, bydd Eithriad i Dreth y Cyngor yn berthnasol hyd at y dyddiad maent yn troi’n 25 oed.

Os yw person sy’n gadael gofal yn byw gydag un neu fwy o oedolion, bydd gostyngiad o 25% yn berthnasol ar Dreth y Cyngor. I fod yn gymwys am yr eithriad/ gostyngiad hwn, rhaid bodloni’r amodau a ganlyn:

- Rhaid i’r sawl sy’n gadael gofal fod yn o leiaf 18 oed ond yn iau na 25
- Yn cael ei ystyried yn berson ifanc categori 3 yn ôl diffiniad adran 104 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Nid yw bellach yn derbyn gofal gan awdurdod lleol